Water Resources West



# CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNLLUN DRAFFT


Hydref 2022

# Crynodeb gweithredol

Mae rheoli adnoddau dŵr mewn ffordd gynaliadwy yn allweddol er mwyn sicrhau cyflenwadau dŵr digonol a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae ein cyflenwadau dan bwysau yn sgil effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, galw cynyddol oherwydd twf y boblogaeth, a'r angen am amddiffyn yr amgylchedd dyfrol rhag effeithiau codi gormod o ddŵr. Trwy weithio ar y cyd â rhanbarthau eraill, sectorau diwydiannol, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill, mae aelodau Adnoddau Dŵr y Gorllewin yn credu gallwn bennu a datblygu'r camau y mae angen eu cymryd nawr er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy. Rydyn ni felly wedi datblygu cynllun â gorwel o 60 mlynedd er mwyn diwallu anghenion cwsmeriaid a'r amgylchedd fel ei gilydd.

I ddiwallu anghenion y sector dŵr cyhoeddus, rydyn ni wedi llunio strategaeth uchelgeisiol i ddiogelu cyflenwadau cynaliadwy at y dyfodol. Rydyn ni'n gwybod bod cynaliadwyedd yn dechrau gyda lleihau defnydd, ac felly erbyn 2050, rydyn ni wedi ymrwymo i gwtogi 50% ar ollyngiadau, ac i gynorthwyo aelwydydd i leihau eu defnydd i 110 litr y person y dydd. Er gwaethaf y polisïau uchelgeisiol o ran galw a gâi eu rhoi ar waith, yn ôl ein hamcanestyniadau, bydd angen 221 miliwn litr ychwanegol y dydd (Ml/d), ar ein rhanbarth i ddiwallu anghenion y cyhoedd o ran cyflenwadau dŵr, a 97 Ml/d i ddiwallu anghenion sectorau eraill erbyn 2050. Bydd y camau a nodir yn y cynllun drafft yma'n helpu i wella gwytnwch ein cyflenwadau dŵr cyhoeddus rhag sychder mawr, ac yn ein helpu ni i ddiwallu'r galw yn ein rhanbarth at y dyfodol. Rydyn ni'n amcangyfrif taw £9.7bn fydd cost y rhaglen hon, ond daw â dros £2 biliwn o fuddion net i'r rhanbarth. Daw'r buddion net ar ffurf cyflenwadau dŵr cyhoeddus gwydn, gwelliannau amgylcheddol ac enillion economaidd ar ffurf trosglwyddiadau sy'n denu buddsoddiad i'r rhanbarth, a bydd buddion amcanestynedig y rhain yn gwrthbwyso'r gost.

**Ein strategaeth ar gyfer cyflenwadau dŵr cynaliadwy**



Rydyn ni bellach yn ymgynghori ar ein cynllun drafft, gan gynnwys deilliant yr ail broses gysoni rhyng-rhanbarthol, rhwng 16th Tachwedd 2022 a 22nd Chwefror 2023. Byddwn ni'n defnyddio'r adborth a gesglir i fwydo datblygiad ein cynllun rhanbarthol terfynol.

# Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Darllenwch y cynllun hwn a rhannwch eich safbwyntiau â ni. Rydyn ni wedi darparu ambell i gwestiwn ar eich cyfer am sawl agwedd bwysig ar ein cynllun:

1. Ydych chi'n fodlon ar ein dull o weithredu i reoli'r galw? (Gweler Adran 7.1)
2. Ydych chi'n credu bod yr opsiynau cyflenwi sydd yn ein cynllun dewisol yn cynnig gwerth da o ystyried bod llawer ohonynt yn targedu gwelliannau i asedau sy'n bodoli eisoes? (Gweler Adran 7.1)
3. Ydych chi'n fodlon ar y dewis o opsiynau dalgylch a nodwyd o ran ein nodau amgylcheddol? (Gweler Adran 7.2)
4. Ydych chi'n fodlon bod y dewisiadau strategol a wnaed wrth ddatblygu'r cynllun hwn wedi cael eu llywio'n gadarn gan adborth rhanddeiliaid a chwsmeriaid? (gweler Adran 6)
5. Ydych chi'n meddwl bod y trosglwyddiadau a ddewiswyd yn ein cynllun wedi cael eu hesbonio'n ddigonol o ran eu risgiau a'u manteision? (gweler Adran 7.3)
6. A oes unrhyw safbwyntiau gennych o ran sut y gellir datblygu ein cynllun ymhellach i ddiwallu anghenion sectorau eraill sy'n codi dŵr?
7. Oes unrhyw sylwadau eraill gennych am ffyrdd o wella ein cynllun?

Anfonwch eich adborth at: waterresourceswest@outlook.com erbyn 22/02/2023.

Gyda diolch gan y cyrff codi dŵr a gynrychiolir yn Adnoddau Dŵr y Gorllewin

## Nodyn

Paratowyd y cynllun rhanbarthol yma, gan gynnwys y tablau data cynllunio rhanbarthol cysylltiedig, gan y cwmnïau dŵr sy'n aelodau craidd gan ddilyn methodolegau y cytunwyd arnynt. Mae'r rhain wedi bod yn destun llywodraethu a sicrwydd o fewn pob un o'r cwmnïau unigol, â lefel y sicrwydd yn gymesur â'r risgiau. Lle'r oedd y cwmnïau o'r farn bod y risgiau'n uwch, aethant ati i ofyn am sicrwydd allanol. Dyma'r cwmnïau sy'n aelodau craidd: Dŵr Cymru Cyfyngedig, Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig, United Utilities Water Limited, South Staffordshire Water plc, Severn Trent Water Limited.

Mae'r cynllun wedi cael ei adolygu gan holl aelodau Adnoddau Dŵr y Gorllewin a gynrychiolir yn ei strwythur llywodraethu.

Cafwyd sicrwydd allanol gan Jacobs am ddefnydd Adnoddau Dŵr y Gorllewin o ddata a sicrhawyd gan y cwmnïau. Casgliad Jacobs oedd bod cynllun drafft WRW a Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr drafft y cwmnïau yn gyson â'i gilydd ac rydyn ni'n teimlo bod cynllun WRW wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol a'r canllawiau a'r polisi perthnasol (gweler Atodiad 1).

Wrth ddarllen y tablau a'r siartiau yn y ddogfen hon, hwyrach na fydd y cyfansymiau'n adio'n union am fod y rhifau wedi eu crynhoi.

Cliciwch ar y termau sydd mewn llwyd yn y ddogfen i fynd i'r Rhestr Geirfa, lle bydd esboniad llawn o'r ystyr. Llun clawr gan Humphrey Muleba ar Unsplash.